# Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017

**2017 dccc 1**

**RHAN 6**

FFURFLENNI TRETH A THALIADAU

**PENNOD 3**

GOHIRIO TRETH

**60 Ceisiadau gohirio: hysbysiadau o benderfyniadau ACC**

(1) Pan fo ACC yn cytuno i gais gohirio, rhaid iddo ddyroddi hysbysiad i'r prynwr sy'n pennu—

(a) y swm gohiriedig a'r swm a wrthodir (os o gwbl),

(b) dyddiad terfyn disgwyliedig y cyfnod gohirio,

(c) unrhyw amod y mae ACC wedi ei osod o dan adran 58(6)(c), a

(d) os yw'r swm gohiriedig yn is na'r swm gohiriedig arfaethedig, y rhesymau am y penderfyniad hwnnw.

(2) Pan fo ACC yn gwrthod cais gohirio, rhaid iddo ddyroddi hysbysiad i'r prynwr yn pennu'r rhesymau dros wrthod.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 60 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 81(2)**

**I2** A. 60 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/34, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Adran 60.